BRITISH COUNCIL

GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Education and Culture DG
'Youth in Action' Programme

GISDA YN YMUNO A RHAGLEN 'YOUTH IN ACTION'

Mae GISDA, elusen sydd yn darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc yng Ngwynedd, wedi ennill grant gan yr Undeb Ewropeaidd i adeiladu Yurt. Adeilad cludadwy wedi ei wneud o bren a chanfas yw Yurt a bydd arbennigwr o Denmarc yn dod draw i ddysgu'r bobl ifanc sut i'w greu a'i godi ar dir Antur Waunfawr. Mae hwn yn gyfle ardderchog i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd fel gwaith pren a hen dechnegau adeiladu yn ogystal a dysgu am ddiwylliant arall.

Ennillwyd y grant trwy'r rhaglen 'Youth in Action' a reolir yn y DU gan y Cyngor Prydeinig ac yn cael ei ariannnu gan y Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhaglen yn helpu pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion gweithgar ac yn fwy parod ar gyfer y byd gwaith, tra hefyd yn hyrwyddo undod, cydlyniad cymdeithasol a chydweithrediad o fewn Ewrop a gwledydd cyfagos.

Dywedodd Gethin Evans (Rheolwr Prosiect GISDA) "Rydym yn falch o fod wedi derbyn y grant hwn i gynnal prosiect unigryw i adeiladu Yurt ein hunain. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Antur Waunfawr yn ogystal a chroesawu arbenigwr Yurt, Gyuri Jakabfi o Ddenmarc a fydd yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth GISDA yn ogystal a phobl ifanc lleol eraill ar y prosiect. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd creadigol i ymgysylltu a phobl ifanc ac mae'r prosiect hwn yn sicr yn wahanol ac yn ddiddorol. Rwy'n falch bod Youth in Action wedi ein galluogi i ddatblygu prosiect a fydd yn gweld llawer o bobl ifanc yn cael eu hybyrdoli i ddysgu drwy fod yn greadigol."

Dywedodd Pennaeth Rhaglenni UE yn y Cyngor Prydeinig, Ruth Sinclair-Jones: "Mae Youth in Action yn paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith yn ein cymdeithas fyd-eang.
Mae mentrau fel yr un yma yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol ddiwyllianau. Y rhan bwysicaf o brosiect fel hyn yw ei fod yn cael ei sefyldu a'i gynnal gan y bobl ifanc eu hunain. Drwy wneud hyn, maent yn dysgu sgiliau a fydd yn amhrisiadwy yn eu bywyadau a gweithleoedd yn y dyfodol".

Am fwy o wybodaeth neu os oes gan unrhyw berson diddordeb yn ymuno a'r prosiect cysylltwch a Gethin Evans ar 01286 671153